

Mrs Mary Burrows  
Prif Weithredwr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Ysbyty Gwynedd  
Penrhosgarnedd  
BANGOR  
Gwynedd  
LL57 2PW

Llinell Uniongyrchol: 02920 928875  
Ffacs: 02920 928878  
E-bost:mandy.collins@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref  
Ein cyf / Our ref

17 Mehefin 2010

Annwyl Mary

## **YMWELIAD URDDAS A PHARCH DIRYBUDD: YSBYTY MAELOR WRECSAM**

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi am y canlyniadau a'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r ymweliad 'Urddas a Pharch' dirybudd ag Ysbyty Maelor Wrecsam ar 22 a 23 Chwefror 2010, ac i ddiolch i'ch staff am eu cyfraniadau cadarnhaol a'u cymorth parod.

### **Cefndir i'r ymweliad**

Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol i ni gyhoeddi ein bwriad i gynnal ymweliadau dirybudd o'r fath pan gyhoeddwyd ein Rhaglen Tair Blynedd ar gyfer 2009-2012 ym mis Gorffennaf y llynedd. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol:

- A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?
- Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n bodloni eu gofynion dietegol?
- Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?
- A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?

Fel rhan o'r broses adolygu rydym yn cyfweld aelodau staff, cleifion a gofalmwyr; yn archwilio cofnodion cleifion ac yn arsylwi'r amgylchedd, y gofal a'r driniaeth a ddarperir ar adeg ein hymweliad.

Rydym hefyd yn ystyried meysydd polisi a meysydd gweithredol eraill a allai effeithio ar ddiogelwch, preifatrwydd ac urddas, gan gynnwys:

- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)
- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).
- Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.

Defnyddir canlyniad yr ymweliad hwn hefyd i gyfrannu at:

- Ein hadolygiad o weithrediad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.
- Dilysiad hunanasesiadau Safonau Gofal Iechyd.

Yn bwysicaf oll, bydd yr ymweliadau'n werthfawr er mwyn cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir, a bydd yr holl lythyrau rheoli a baratoir o ganlyniad i'r ymweliadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cynhaliwyd yr ymweliad ag Ysbyty Maelor Wrecsam dros gyfnod o 24 awr ddydd Llun 22 a dydd Mawrth 23 Chwefror. Rhoddodd hyn gyfle i'n hadolygwyr ystyried effaith trefn arferol y ward a chyfnodau newid sfft ar urddas cleifion ac i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant yr unedau yr ymwelwyd â hwy.

Canolbwyntiodd ein hymweliad ar wardiau Glenfro ac Alyn. Mae Glenfro yn darparu ar gyfer cleifion ag anhwylder organaidd yr ymennydd a Ward Alyn ar gyfer cleifion â salwch meddwl anorganaid.

Ein barn gyffredinol oedd bod aelodau staff y ward yn ofalgar iawn tuag at eu cleifion, ac er mai lleoliad dros dro yw hwn, a'i fod yn hynod lawn, nid oeddent yn caniatáu i hyn eu hatal rhag ceisio darparu gofal o safon dda.

Disgwylir i'r wardiau i ni ymweld â hwy symud ar draws, ar 1 Mawrth 2010, i'r Uned Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn (Wardiau Gwanwyn a Hydref) sydd newydd gael ei datblygu. Felly dylid ystyried a mynd i'r afael â'n sylwadau yng nghyd-destun y cyfleuster newydd.

### **A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?**

Roedd yr aelodau staff yn hynod ofalgar ac yn gwbl ymwybodol o'r angen i gynnal urddas y cleifion. Mae'r fenter "nyrs allweddol" yn arfer sy'n werth ei nodi, lle mae pob nyrs gofrestredig yn cael ei neilltuo'n unigol i glaf sydd newydd gael ei dderbyn ac yn parhau fel ei nyrs enwebedig trwy gydol ei arhosiad.

Roedd y diwylliant therapiwtig a oedd yn amlwg ar y ddwy ward yn werth ei nodi hefyd. Ar adeg ein hymweliad, roedd gweithgareddau'n cael eu darparu i gleifion gan ddwy 'nyrs gweithgareddau' gyda chymorth aelodau staff y ward. Roedd y gweithgareddau wedi'u seilio ar ddiwrnod y cleifion, o ran gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau bywyd beunyddiol. Fe wnaethom sylwi ar nifer o ymdrechion gan aelodau staff i gynnwys cleifion mewn gweithgareddau, ac anogir y cleifion i fod yn annibynnol trwy gefnogaeth ysgafn. Yr argraff gyffredinol a gafwyd oedd amgylchedd sy'n ymroddedig i ysgogi'r cleifion a'u cynorthwyo i fod yn annibynnol.

Canfuom dystiolaeth y defnyddir gwasanaethau eiriolaeth cleifion, ac mae defnydd a datblygiad y "Grŵp Lotus" (sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, o'r presennol a'r gorffennol) yn cael effaith gadarnhaol ar y dull o ddarparu gwasanaethau. Cafodd y grŵp hwn ei gynnwys yn ymarferol yn y gwaith o ddatblygu gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

### ***Meysydd i'w gwella***

Roedd y lleoliad dros dro yn orlawn a phrin oedd y manau preifat i gleifion. Gallai triniaeth neu archwiliadau meddygol beri problemau o safbwynt urddas a pharch, o ystyried nad oes ystafell driniaeth nac ystafelloedd sengl, a bod rhaid archwilio cleifion mewn cilfach mewn ystafell gysgu heb unrhyw rwystrau effeithiol ac eithrio llenni.

Mae'r ddwy ward yn darparu gofal i ddynion a menywod ac nid oedd y cynllun yn ei gwneud yn rhwydd eu gwahanu mewn unrhyw ffordd.

Prin oedd y wybodaeth ffurfiol am "Hanfodion Gofal" a ddangoswyd gan yr aelodau staff i ni siarad â hwy ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau Hanfodion Gofal. Mae'r rhain yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod negeseuon urddas a pharch yn cael eu hymsefydlu'n llawn. Er ei bod yn ymddangos bod yr aelodau staff yn deall yr agweddau sylfaenol, nid oes unrhyw fframwaith ffurfiol i'w galluogi i fyfyrion ar eu harferion eu hunain.

### **Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n bodloni eu gofynion dietegol?**

Roedd amseroedd penodol yn cael eu neilltuo ar gyfer prydau bwyd, ac roedd yn ymddangos eu bod yn cael eu gorfodi. Ceir gwared ar bopeth allanol a fyddai'n tynnu sylw (dim teledu er enghraifft) ac ni chaniateir unrhyw aelodau staff allanol nac ymwelwyr. Roedd yr adegau pryd bwyd a welwyd yn hamddenol iawn ac roedd aelodau staff ar gael i gynorthwyo'r cleifion i fwyta yn ôl yr angen. Er bod y prif bryd yn cael ei ddewis ymlaen llaw, gwelsom y cleifion yn cael cynnig rhywfaint o ddewis o fwyd mewn amgylchedd cymharol di-bwysau.

Roedd yr aelodau staff ar ddyletswydd yn rhoi digon o sylw i'r cleifion ond roedd yn ymddangos hefyd eu bod yn gallu cydbwysu hyn trwy annog annibyniaeth.

Roedd yn ymddangos, wrth edrych ar sampl o'r cofnodion meddygol, bod asesiadau maeth yn cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion a bod adolygiadau o'u pwysau a'r lefelau maeth a gymerant yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n rheolaidd.

### ***Meysydd i'w gwella***

Mynegwyd pryder gan aelodau staff ar y ddwy ward am yr amrywiaeth gyfyngedig o fwyd sydd ar gael. Yn benodol, ystyriwyd bod y pryd min nos yn broblem a bod "taten bob a ffa pob" yn ymddangos ar y fwydlen yn gymharol gyson.

Fe'n hysbyswyd bod y mater hwn wedi cael ei godi gyda'r adran arlwygo ar sawl achlysur ond na chymerwyd camau i ddatrys y mater.

Mae 'canllawiau bwyd' yn dangos faint o fwyd sy'n arferol i'w fwyta, ac mae'r rhain yn bwysig gan eu bod yn cynnig dull o bennu faint o fwyd mae'r cleifion yn ei fwyta. Roedd yn siomedig gweld nad oedd y rhain yn amlwg ar adeg ein hymweliad, er i ni gael ein hysbysu y byddai'r rhain ar gael yn yr uned newydd.

### **Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?**

Mae'r cleifion hynny â salwch organaidd mewn un ward (ward Glenfro) a'r rhai â salwch anorganidd yn y llall (ward Alyn). Argymhellir hyn fel arfer da gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Roedd yn dda gweld bod deunydd ymolchi yn cael eu cadw dan glo, o ystyried y posibilrwydd y gallai cleifion dryslyd gamgymryd pethau fel siampŵ ag aroglau ffrwyth am ddiodydd ffrwyth arferol.

Mae'r staff yn cynnwys dwy nyrs â chyfrifoldeb penodol am "weithgareddau." Roedd yn arbennig o braf gweld bod y gweithgareddau yn canolbwyntio ar ddiddordebau cleifion unigol yn hytrach na rhaglen ragnodol ac anhyblyg o weithgareddau.

Mae system 'Dolen Sain' ar gael i gleifion sy'n drwm eu clyw ac er mai prin yw'r galw ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cyfieithu ar gael.

Roedd y 'Grŵp Lotus' yn cymryd rhan sylweddol yn y ffordd y defnyddir amgylchedd y ward ac y sicheir ei fod yn canolbwyntio ar y cleifion. Mae'r dull hwn o gynnwys gofalwyr a chyn-gleifion yn rhan werthfawr o'r broses o addasu'r amgylchedd i ddiwallu anghenion y cleifion orau.

### ***Meysydd i'w gwella***

Am resymau'n ymwneud â diogelwch cleifion, penderfynwyd cloi rhai deunyddiau ymolchi personol cleifion yn y golchdy yn hytrach nag yn eu hystafelloedd. Fe'n hysbyswyd bod y trefniant hwn yn debygol o barhau yn yr uned newydd. Nid yw'r trefniant hwn yn briodol gan na ddylid storio eitemau glân yn y golchdy. Man budr yw hwn ac felly ceir perygl o groeshalogi.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfleusterau larwm i gleifion ac roedd yn ymddangos bod dryswch am yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu yn yr uned newydd. Nid yw'n dderbyniol nad oes cynllun hysbys y cytunwyd arno yn y maes hwn, ac mae angen datrys y mater.

Mae cyfleusterau i gleifion â nam ar eu golwg yn ymddangos yn amwys. Roedd yn ymddangos mai'r consensws cyffredinol oedd y byddai gan y Therapyddion Galwedigaethol rai cymhorthion i fynd i'r afael â hyn yn ôl pob tebyg, er bod hyn yn aneglur. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol ac mae angen adolygu a chymryd camau o ran y ddarpariaeth ar gyfer cleifion â nam ar eu golwg.

Un broblem benodol yn yr uned newydd yw bod nifer o leoedd lle gall cleifion fod allan o olwg y staff nyrsio yn rhwydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynllun yr adeilad, am fod y wardiau'n fwy ac am fod mwy o lolfeydd ac ystafelloedd tawel. Mae pryderon y gallai hyn effeithio ar y cymarebau staffio y byddai eu hangen er mwyn gallu arsylwi cleifion yn briodol.

Yn y cyfleuster dros dro cyfredol, cydnabyddir bod y trefniadau o ran toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn anfodhaol, yn ogystal â'r ddarpariaeth o ran lolfeydd, lle defnyddir un man agored fel cyfuniad o lolfa, ystafell fwyta, ystafell dawel ac ystafell weithgareddau.

Nid yw'r ystafelloedd cysgu dros dro lle mae'r cleifion yn cysgu ar hyn o bryd yn cynnig digon o breifatrwydd.

Mae'r ystafell gawod ar ward Glenfro yn cael ei defnyddio fel storfa oherwydd nad oes digon o le storio ar gael, ac nid yw hyn yn foddhaol.

### **A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?**

Canfuom dystiolaeth y cynhelir cyfarfodydd tîm Amlddisgyblaeth ac y'u cofnodir yn nodiadau achos y cleifion. Mae perthnasau a gofalwyr yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn yn ogystal â Therapyddion Galwedigaethol a "Nyrsys Gweithgareddau". Fodd bynnag, nid oedd aelodau staff gofal cymdeithasol i'w gweld yn cymryd rhan, ac o ystyried bod y rhain yn wardiau asesu aciwt, mae hwn yn ymddangos yn wall anffodus.

Mae tîm Cyswllt yn darparu'r cysylltiad rhwng y wardiau aciwt, a'r wardiau meddygol cyffredinol a'r uned iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn yn benodol. Arweinir y tîm amlddisgyblaeth hwn gan Seiciatrydd. Mae'r tîm yn asesu cleifion a atgyfeirir o'r wardiau aciwt i'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn, er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau yn briodol a hefyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal mwyaf priodol.

Mae'r Grŵp Lotus yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn nhrefn ofal gyffredinol y cleifion, er enghraifft maent yn darparu gwybodaeth gyflwyniadol i gleifion a gofalwyr yn disgrifio swyddogaethau'r ddwy ward, ynghyd â chynghor ymarferol i berthnasau a gofalwyr ar sut i fanteisio ar yr holl gyfleusterau ac adnoddau sydd ar gael.

## ***Meysydd i'w gwella***

Er ein bod o'r farn bod defnyddio tîm cyswllt i ddarparu'r cysylltiad rhwng wardiau aciwt a'r uned iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn yn beth cadarnhaol, nodwyd y broblem ganlynol gennym. Byddai meddygon ac arbenigwyr eraill yn gweld y claf ar gais un o'r aelodau staff meddygol seiciatrig, ond dywedodd yr aelodau staff eu bod yn amharod i ddod i weld claf yn dilyn cais gan y nyrs gyfrifol. Roedd hwn yn bryder arbennig y tu allan i'r oriau arferol pan nad yw aelodau staff meddygol seiciatrig ar gael ar y safle o bosibl. Mae'n arbennig o bwysig i'r grŵp cleientiaid hwn, sy'n debygol o fod yn dioddef sawl patholeg ar yr un pryd, allu manteisio ar wasanaethau meddygol corfforol. Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer hyn er mwyn sicrhau bod holl anghenion cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu diwallu'n llawn.

Nid yw'r dull o gadw cofnodion yn systematig. Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am gleifion gan y gall fod wedi'i gwasgaru ar draws sawl gwahanol ffeil mewn sawl gwahanol le, ac mae'n ymddangos bod pob un ohonynt ar bapur. Ceir 'Asesiad Cyfannol a Datganiad o Angen, dogfennau asesu risg penodol ar wahân a dogfennau MAELOR 'MUST' yn y prif gofnod meddygol.

Mae'r ffeil nodiadau beunyddiol, a gedwir yn swyddfa'r ward, yn cynnwys yr adolygiadau diweddaraf sy'n gysylltiedig â'r asesiadau yn y prif gofnod meddygol.

Ar ôl symud i'r uned newydd, yr unig gyfleuster cyfrifiadurol sydd wedi'i gynllunio yw system i storio copïau gwag o'r ffurflenni amrywiol fel y gellir eu hargraffu. Dyma gollu cyfle o bosibl i gyflwyno system wedi'i chynllunio i leihau gofynion storio papur.

Prin oedd y dystiolaeth y daethom o hyd iddi yng nghofnodion y cleifion o asesiad o alluedd meddyliol cleifion unigol neu ganiatâd i driniaeth. Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn fel blaenoriaeth uchel.

### **Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA).**

### **Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).**

### **Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.**

Roedd gan fwyafrif yr aelodau staff i ni siarad â hwy ddealltwriaeth sylfaenol o'r materion sy'n gysylltiedig ag oedolion sy'n agored i niwed, ond roedd hyfforddiant yn y maes hwn yn anghyson iawn. Er bod rheolwr y ward wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ar oedolion sy'n agored i niwed a materion yn ymwneud â chaniatâd, nid oedd aelodau eraill o'r staff wedi derbyn hyfforddiant. Roedd un aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am un o'r wardiau wedi derbyn yr hyfforddiant hwn fel rhan o'i chynllun gradd yn unig. Nid oedd yr adolygwyr yn gallu nodi unrhyw fframwaith addysgol ffurfiol ar gyfer aelodau staff.

Roedd y polisi POVA i'w weld ar fewnwyd yr ysbyty ynghyd â siart llif yn dangos y camau rhesymegol ar gyfer diffinio ac ymdrin â digwyddiad POVA. Er nad oedd rhai aelodau staff yn ymwybodol o'r wybodaeth hon, cawsant drafferth yn disgrifio sut mae "caniatâd" yn amlygu ei hun yn ymarferol a'r hyn a olygir gan "alluedd."

Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ond nid oedd yr aelodau staff yn ei ddeall yn llawn. Cynhelir trafodaeth oruchwylio bob dau fis ond nid yw'n ymddangos ei bod yn rhan o unrhyw werthusiad neu broses datblygiad personol a phrin yw'r dystiolaeth ar gyfer diffinio anghenion hyfforddiant.

### ***Meysydd i'w gwella***

Ceir ymwybyddiaeth gyffredinol o'r term "agored i niwed" ymhlith oedolion hŷn, ond prin fu'r hyfforddiant ffurfiol i'r staff nyrsio.

Ni ystyrir bod amddiffyn plant yn berthnasol, er i'r aelodau staff ddechrau sylweddoli, wrth i ni ehangu'r trafodaethau, y gallai hyn fod yn berthnasol o ran cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion neu ymweliadau gan blant. Unwaith eto, mae diffyg hyfforddiant yn y maes hwn.

Nid oes protocol ffurfiol ar gyfer ymweliadau gan blant â'r wardiau presennol ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw brotocol ar gyfer ymweliadau gan blant â'r uned newydd. Byddem yn disgwyl i ysbytai lle gallai cleifion gael eu cadw'n gaeth fod â pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer ymweliadau plant, yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl<sup>1</sup>.

Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cynghori y dylid cynnal archwiliad rheolaidd bob 3 blynedd.

Ein dealltwriaeth yw bod pob math o hyfforddiant ac eithrio hyfforddiant gorfodol wedi cael ei wahardd. Mae hyn yn peri pryder difrifol o ystyried y diffyg hyfforddiant sydd ar gael mewn nifer o feysydd sylfaenol.

Roedd cyfraddau salwch aelodau staff yn ymddangos yn uchel, ond ni ellir bod yn sicr beth yw'r rhesymau gan nad archwiliwyd y dystiolaeth. Gallai fod goblygiadau i lefelau staffio yn yr uned newydd, lle mae'n bosibl y bydd angen mwy o aelodau staff i fonitro cleifion nag a ragwelir ar hyn o bryd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu cynllun gweithredu erbyn 30 Gorffennaf 2010, yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodir yn y llythyr hwn.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi fy ffonio fi neu Tracey Jenkins ar 02920 928913 neu anfon e-bost at [tracey.jenkins@wales.gsi.gov.uk](mailto:tracey.jenkins@wales.gsi.gov.uk).

---

<sup>1</sup> Deddf Iechyd Meddwl 1983, Cod Ymarfer ar gyfer Cymru, pennod 20: Ymweld â chleifion yn yr Ysbyty, Plant a Phobl Ifanc.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Richard Bowen a Wendy Chatham yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn gywir

**MANDY COLLINS**  
Dirprwy Brif Weithredwr